TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 01 Tachwedd 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Diolch i chi am eich amynedd wrth i ni weithio tuag at gyhoeddi'r ymateb hwn ac rydym yn ymddiheuro unwaith eto am unrhyw anhwylustod y gallai hyn fod wedi'i achosi. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

## Atebion i'ch Cwestiynau

**Pryd sefydlwyd Gorsaf Drenau Llandanwg?**
Cyflwynwyd gorsaf Llandanwg i'r rhwydwaith rheilffyrdd gan Great Western Railway a dechreuodd wasanaethu ar 8 Tachwedd 1929.

**Pa waith sydd wedi cael ei wneud yn yr Orsaf/o ran y gwasanaeth trên yn ddiweddar?**
Ers mis Medi 2021, mae'r llwybr hwn wedi bod ar gau oherwydd gwaith Network Rail ar Bont y Bermo. Disgwylir y bydd y llwybr yn ailagor ym mis Rhagfyr 2021 pan fydd y gwaith peirianneg hwn wedi'i gwblhau.

**Nifer y teithwyr yn yr Orsaf dros y 3 blynedd flaenorol?**
**Nifer y teithwyr sy'n mynd ar y trên o Landanwg?**
**Nifer y teithwyr sy'n dod oddi ar y trên yn Llandanwg?**

Nid yw TrC yn casglu data ar wahân ar gyfer teithwyr sy'n dod ar drenau a theithwyr sy'n dod oddi ar drenau mewn gorsaf. Yn hytrach, mae'r niferoedd yn cael eu cyfuno'n un ffigur, sydd yn ei dro yn cynrychioli cyfanswm nifer y teithwyr yn yr orsaf. Felly, bwriad y data a roddir isod yw ateb pob un o'r tri chwestiwn hyn. Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2018 a mis Medi 2021. Mae cyfanswm nifer y teithwyr fel a ganlyn:

| Cyfnod | Cyfanswm |
|---|---|
| 1 Ionawr 2018 - 31 Rhagfyr 2018 | 4735 |
| 1 Ionawr 2019 - 31 Rhagfyr 2019 | 4281 |
| 1 Ionawr 2020 - 31 Rhagfyr 2020 | 351 |
| 1 Ionawr 2021 - 31 Rhagfyr 2021 | 4 |

**Demograffeg y teithwyr?**
Nid ydym yn cadw data demograffig am ein cwsmeriaid o bob gorsaf. Fodd bynnag, mae adolygiad o'r gwerthiant yn Llandanwg ers 2018 yn awgrymu bod 73.9% o'r tocynnau'n cael eu gwerthu i oedolion; gwerthwyd 14.2% o docynnau i'r rheini sy'n defnyddio cerdyn rheilffordd pobl hŷn ac felly bydd y rhain dros 60 oed; gwerthwyd 2.9% o'r tocynnau i'r rheini sy'n defnyddio cerdyn rheilffordd pobl ifanc ac felly bydd y rhain rhwng 16 a 25 oed (mae'n bosibl y bydd cyfran fach yn fyfyrwyr aeddfed cymwys o unrhyw oedran); ac yn olaf, mae 9% o'r tocynnau'n cael eu gwerthu i blant rhwng 5 ac 15 oed. Er y bydd y ffigurau hyn yn newid o un flwyddyn i'r llall, mae'n debygol y bydd y niferoedd hyn yn cynrychioli Llandanwg yn y tymor hir.

| Math o Docyn | % |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Oedolyn | 73.9 % |
| Person hŷn | 14.2 % |
| Plentyn | 9.0 % |
| Person ifanc | 2.9 % |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".